Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-P-MD-3972-18

Llyr Gruffydd AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

28 Tachwedd 2018

Annwyl Llyr,

Mae Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 bellach wedi eu harchwilio, a'u cyhoeddi ar 9 Tachwedd 2018. Yn unol â'm hymrwymiad i arferion da a thryloywder, gallaf yn awr ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yn erbyn y cynlluniau gwario sydd wedi eu cymeradwyo yn Ail Gyllideb Atodol 2017-18.

Cwmpas yr alldro terfynol ar gyfer 2017-18 yw £16.4 biliwn yn erbyn Cyllideb Llywodraeth Cymru o £16.6 biliwn. Mae hyn yn cynrychioli amrywiant o 1.2% yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd.

Mae'r adroddiad a'r atodiadau perthnasol yn darparu'r canlynol: crynodeb o wariant yn ôl portffolio o fewn cyfansymiau rheolaeth y Trysorlys; amrywiadau o'u cymharu â'r gyllideb; eglurhad o amrywiannau sylweddol; a manylion symiau sydd i'w cario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Byddwn yn hapus i drefnu bod swyddogion ar gael i drafod manylion yr adroddiad os ydych yn teimlo y byddai hynny o fudd.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales